

Dathliad yn Aberystwyth ar 12^{fed} Mai 2012



Ers rhai misoedd mae aelodau'r Pwyllgor wedi bod - nid yn ymdrechu'n gymaint ag yn gweithio'n galed, i ddatblygu gwefan newydd ar gyfer Archif Menywod Cymru. Mae'r prosiect bron â'i gwblhau, a chaiff ei lansio mewn cyfarfod arbennig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 12fed o Fai. Bydd llawer mwy o wybodaeth ar y wefan hon nag sydd ar y wefan gyfredol, gan gynnwys manylion am Gasgliadau AMC mewn archifau a chasgliadau eraill ledled Cymru. At hyn, bydd oriel o ddelweddau lu o fywydau menywod a gasglwyd gan yr Archif, yn ystod y Sioeau ar Daith yn arbennig. Bydd adran ar gyfer aelodau, a fydd yn gallu mewngofnodi'n bersonol, lle bydd papurau'r gynhadledd a phapurau eraill yn cael eu cyhoeddi, a lle gall aelodau rannu eu diddordebau. Y bwriad yw bod y safle'n tyfu a datblygu i gwrdd ag anghenion yr aelodau, ac edrychwn ymlaen at

eich sylwadau ar y diwrnod.

Bydd diwrnod y lansio, a fydd ar agor i bob aelod ac i'w ffrindiau, yn dechrau gyda thaith o gwmpas y Llyfrgell Genedlaethol a chinio ysgafn i ddilyn. Yn ogystal â lansio ein gwefan ein hunain, yn ystod rhaglen y prynhawn, bydd cyflwyniad gan Linda Tomos, Cyfarwyddwr CyMAL (Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru) a fydd yn siarad am safle Casgliad y Werin Cymru. Bydd digon o gyfleoedd i sgwrsio a rhwydweithio hefyd. Yn Siambr Gyngor y Llyfrgell y cynhelir y digwyddiad.

Bydd y digwyddiad yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, rhaid archebu lle ymlaen llaw, a bydd tâl bychan am y cinio. Bydd ffurflen archebu a manylion llawn yn cael eu hanfon at bob aelod ym mis Ebrill.

GALWAD AM BAPURAU

15fed Cynhadledd Flynyddol

13 – 14 Hydref 2012

Canolfan y Priordy, Priordy'r Santes Fair, Stryd y Mynach, y Fenni.

Mae ein cynhadledd yn cynnig fforwm i unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes menywod yng Nghymru, boed academydd neu beidio, i gyflwyno'i gwaith a derbyn adborth mewn awyrgylch gyfeillgar a dymunol. Mae'n gyfle hefyd i aelodau rwydweithio a chymdeithasu.

Gwahoddir papurau ar hanes menywod yng Nghymru. Byddem yn croesawu papurau yn ymwneud â **bywydau menywod yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn yr ugeinfed ganrif** yn arbennig, gan yr hoffem drefnu un sesiwn ar y thema hon.

Byddwn yn ystyried cynigion am bapurau oddi wrth haneswyr, archifwyr ac eraill sydd â diddordeb mewn hyrwyddo hanes menywod yng Nghymru.

Bydd croeso arbennig i gynigion gan ymchwilwyr newydd a chan fyfyrwyr.

Dylai papurau bara 15- 20 munud i'w cyflwyno mewn slot hanner awr, gan ganiatáu digon o amser ar gyfer trafodaeth a chwestiynau. **Dylid anfon crynodeb 150-200 o eiriau yn amlinellu'r themâu allweddol i'w trafod erbyn 30 Mehefin 2012.** E-

bostiwch eich crynodeb neu eich ymholiadau i Katrina Gass:
katrinagass@yahoo.co.uk;neu conference@womensarchivewales.org



Dathlodd Llywydd Archif Menywod Cymru, yr Athro Deirdre Beddoe, ben-blwydd pwysig yn ddiweddar. Llonyfarchiadau mawr iddi a phen-blwydd hapus.

[Llun: Avril Rolph]

Digwyddiad arloesol i'r Archif yn Eisteddfod Genedlaethol y Fro, 2012

Am y tro cyntaf erioed mae'r Archif wrthi'n trefnu digwyddiad cyffrous yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y Fro yr haf hwn. Syniad un o'n haelodau, Rosanne Reeves oedd e a bellach mae is-bwyllgor bychan wedi'i ffurfio i wneud y trefniadau. Rydym wedi penderfynu mai olrhain peth o hanes Coleg Hyfforddi'r Barri fydd ein thema a byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar gyfnod Ellen Evans yn bennaeth arno rhwng 1923 a'i marwolaeth yn 1953. Am 12 o'r gloch ar ddydd Gwener 10fed Awst y cynhelir y sesiwn ym Mhabell y Cymdeithasau (2). Bydd Dr Siân Rhiannon Williams yn traddodi darlith ar hanes y Coleg ac yna bydd sesiwn agored i drafod a rhannu atgofion. Ar gyfer y digwyddiad hoffem gasglu darluniau a dogfennau am hanes y Coleg ar hyd y blynyddoedd i'w copïo a'u sganio, er mwyn creu archif ar gyfer y dyfodol. Os oeddech chi'n aelod o'r staff neu'n fyfyrwrraig yn y Coleg a bod gennych ffotograffau neu ddogfennau perthnasol, byddem wrth ein bodd yn eu gweld (ymlaen llaw os oes modd), ac fe'u cewch yn ôl yn brydlon ac yn ddiogel. Yn bennaf oll, hoffem eich gwahodd i fynychu'r digwyddiad. Rydym yn trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer y sesiwn ddiddorol hon, felly croeso i'n haelodau ymuno â ni.



St David's Day celebrations at Barry College.

Os hoffech ein helpu cysylltwch â'r Archif trwy Catrin Stevens, 01792 893410; catrin@stevens2760.freeseve.co.uk neu anfonwch air neu luniau i 10 Bwrw Road, Casllwchwr, Abertawe, SA4 6TX. Diolch yn fawr.

Mis Hanes Lesbiaid, Pobl Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol Cymru 2012

Mae Mis Hanes LHDT yn ddathliad blynyddol, mis o hyd, o hanes lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol a hanes hawliau hoywon a mudiadau hawliau sifil cysylltiedig. Dechreuodd ym Mhrydain yn Chwefror 2005 i gyd-fynd â dathliad mawr diddymu Adran 28 warthus Deddf Llywodraeth Leol 1988 (yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon; roedd yr Alban eisoes wedi'i diddymu yn 2000), deddf a oedd yn gwahardd 'hyrwyddo cyfunrywioldeb'.

Yn 2012 mae Mis Hanes LHDT Cymru (a ddathlwyd gyntaf y llynedd) yn cael ei gydlynu gan Ganolfan Ragoriaeth LHDT, yng Nghaerdydd. Bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau eisoes wedi'u cwblhau erbyn i chi dderbyn y cylchlythyr hwn, gan gynnwys sgwrs dros ginio yn Amgueddfa Casnewydd ar aelodau hoyw teulu Morgan, Tŷ Tredegar; pedair ffilm fer o Wyl Ffilm Iri, a ddangoswyd yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; sgwrs am hunaniaeth fel y'i gwelir mewn dyddiadur a llythyrau ym Mhlas Newydd, Llangollen, cartref Ladis Llangollen, a sgwrs gan Jeffrey John, Deon St Albans, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Abertawe. At hyn bydd arddangosfa ar hanes pobl LHDT yng Nghymru yn adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd o'r 7fed i'r 27ain Mawrth.

Lansiwyd y mis ar y 1af Chwefror, yn Y Senedd, Bae Caerdydd, ac roeddwn i yno. Roedd digon o amser i bori drwy'r stondinau addysgiadol, gan gynnwys (ymhlith eraill) rhai gan Archifdy Morgannwg, Gwasg Prifysgol Caerdydd, Plas Newydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Stonewall Cymru, a Chyngor Pobl Hŷn y Fro, cyn i'r areithiau ddechrau..

Fel y gellid disgwyl, o ystyried y lleoliad, siaradodd Gweinidog Treftadaeth Llywodraeth Cymru, Huw Lewis, AC Plaid Cymru Lindsay Whittle, ac Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig, Kirsty Williams i gyd yn gadarnhaol a brwdfrydig iawn am eu cefnogaeth i'r gymuned LHDT. Rhoddodd yr hanesydd John Davies ddarlith ddiwyf ar hanes LHDT yng Nghymru, darllenodd Gillian Clarke, Bardd Cenedlaethol Cymru, gerdd yn seiliedig ar ddarn o ddyddiadur Sarah Ponsonby, un o Ladis Llangollen, cerdd yr oedd hi wedi'i hysgrifennu yn ystod y Mis Hanes (darllenwch hi ar <http://lgbtec.org.uk/sarah-at-plas-newydd-july-5th-1788>)

Cyfeiriodd llawer o siaradwyr at gyflymder y newid a welwyd yn y cymunedau LHDT yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r modd y mae pethau'n dal i newid. Roedd gweithredoedd gwrygydiol yn anghyfreithiol tan 1967 ac er na chafwyd sancsiynau cyfreithiol cyffelyb yn erbyn lesbiaid, roedd anghymeradwyaeth y cyhoedd yn gyffredinol, o gyfnod prawf 1928 a'r gwaharddiad a ddilynodd ar nofel lesbaidd enwog Radclyffe Hall, *The Well of Loneliness*, tan i Fudiad Rhyddid Hoywon a Mudiad Rhyddid Menywod dechrau'r 70au roi'r hyder i ni fod yn gyhoeddus. Gan fod gennym bartneriaethau sifil (a phriodasau cyn bo hir, mae'n debyg, er gwaetha gwrthwynebiad ambell esgob), yr hawl i fabwysiadu plant ac yn y blaen bellach, mae'n bwysig inni beidio ag anghofio am ymdrechion pobl LHDT a sicrhodd ein bod yn cyrraedd lle rydym heddiw. Mae Canolfan Ragoriaeth LHDT yn gweithio'n galed i ddarganfod a chofnodi ein hanes. Mae'n gweithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i gofnodi treftadaeth ddiwylliannol pobl LHDT yng Nghymru ac mae llawer o wybodaeth ddiddorol ar Adran Treftadaeth Gymreig ei gwefan, er bod llawer mwy o wybodaeth yno am ddynion nag am fenywod. Dyma esiampl arall o agwedd ar hanes menywod yng Nghymru sy'n cael ei dangynrychioli. Felly os gallwch chi daflu goleuni ar yr hanes hwn, cysylltwch â Chanolfan Ragoriaeth LHDT a rhowch wybod i ni yn AMC/WAW hefyd, fel y gallwn ychwanegu at ein gwybodaeth ni'n hunain o hanes menywod yng Nghymru.

Avril Rolph, February 2012

Canolfan Rhagoriaeth LHDT (www.lgbtec.org.uk <<http://www.lgbtec.org.uk>>), Ystafell 5, Tŷ Sophia, 28, Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, ffon: 029 20451868, e-bost: info@ecwales.org.uk <<mailto:info@ecwales.org.uk>> neu heritage@ecwales.org.uk <<mailto:heritage@ecwales.org.uk>>

O'r Gadair

Un prosiect rydyn ni wedi gweithio arno'r gaeaf hwn yw set o ganllawiau gweithredol sylfaenol ar gyfer gwaith y pwyllgor a'r gwirfoddolwyr. Nid yw hwn yn syniad newydd. Dechreuwyd ar y gwaith ar ôl y Diwrnod i Ffwrdd a gafwyd i gynllunio yn 2008, pan ddaeth aelodau ynghyd yn Llandrindod i ystyried a thrafod dyfodol AMC/WAW ar ôl y prosiect Sioeau ar Daith. Y canllaw mwyaf manwl, a'r un sydd ei angen fwyaf, mae'n debyg, yw'r un ar gyfer trefnu cynadleddau, gyda thempladau wedi'u hatodi, a luniwyd gyda chymorth trefnwyr ein cynhadledd ddiweddar yng Nghaernarfon. Gobeithio y bydd hwn yn hwyluso pethau - neu'n lleihau'r straen - i aelodau sy'n gwirfoddoli i drefnu cynadleddau, cyfarfodydd a digwyddiadau eraill mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae copi eisoes ar waith gan y tîm sy'n paratoi'r gynhadledd flynyddol a gynhelir yn y Fenni eleni.

Cefais fwynhad yn cynrychioli AMC/WAW mewn dau ddigwyddiad yn ddiweddar. Roedd y ddau yn ddi-ddorol a phleserus. 'Cymru a'r Môr, yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, oedd un ohonyn nhw, menter i ddod â mudiadau masnachol a threfnadaeth at ei gilydd, er mwyn hyrwyddo arfordir godidog Cymru, ei phorthladdoedd a'i hanes morwrol, i hybu twristiaeth. Dwi ddim yn meddwl y gallwn ni gyfrannu llawer at hwn ar hyn o bryd, ond roedd menywod yn ymgymryd â gweithgareddau morwrol a diwydiannau cysylltiedig â'r môr, ac efallai y daw budd i'r naill a'r llall ohonom o fod â chysylltiad â'r prosiect.

Yn fwy diweddar cefais fy ngwahodd i weithdy yn Abertawe ar ddefnydd a gwerth archifau busnes. Unwaith eto nid yw'n bwnc y byddech yn ei gysylltu'n syth â hanes menywod, ond fe gaech eich synnu, fel y cefais i! Mae mwy am hyn mewn man arall yn y Cylchlythyr hwn. Gwahoddiad arall - i lansiad Cynulliad Cymru o Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn Llandudno - yn anffodus ni allaf fod yn bresennol. Fodd bynnag, rydym wedi ymuno â'r rhydwaith a byddwn yn derbyn gwybodaeth am ei weithgareddau.

Jenny Sabine.

info@womensarchivewales.org

Cyfarfod y Pwyllgor 6^{ed} Ionawr 2012

Cawsom ddechrau da eleni i'n pwyllgor cyntaf ym mis Ionawr yn Archifdy Morgannwg, oherwydd dyma'r pwyllgor cyntaf i mi ei fynychu lle nad oedd ymddiheuriadau. Roedd y deg aelod yn bresennol, gan gynnwys ein Llywydd, yr Athro Deirdre Beddoe, a'r ddwy aelod o ogledd Cymru. Ymunodd Shan Robinson â ni am y tro cyntaf ac roedd hi'n braf gweld Sue Trevelyan Jones yn ei hôl wedi cyfnod hir i ffwrdd oherwydd afiechyd. Cytunon ni i helpu'r gogleddwyr â pheth o'u costau teithio, ond yn y dyfodol rydym yn mynd i arbrofi â chynadledda fideo.

Adroddodd Jenny Sabine o'r Gadair fod 4 is-grŵp i'r Pwyllgor bellach: i ymgyrchu dros ddysgu hanes menywod mewn ysgolion ac yn y Cwricwlwm Cenedlaethol; cyflwyniad yr Eisteddfod; grŵp yng ngogledd Cymru dan arweiniad Annie Williams; i recriwtio noddwyr ar gyfer y gymdeithas (ar hyn o bryd nid yw hwn yn weithredol). Mae hi wedi ysgrifennu canllawiau fel y gall yr is-grwpiau hyn gadw at reolau Archif Menywod Cymru ac adrodd yn ôl i'r prif bwyllgor.

Cyhoeddodd y Trysorydd, Gail Allen, ei bod wedi talu'r ddwy siec olaf a bod y prosiect Sioeau ar Daith a ariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri wedi'i gwblhau o'r diwedd. Roedd gwaith tacluso o hyd a bydd angen rhywfaint o olygu er mwyn i'r casgliad weithio'n foddhaol ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Rwy'n siŵr fod aelodau'n cytuno i hwn fod yn brosiect gwerthfawr ac yn dipyn o waith i'r rhai a fu'n ymhél ag ef. Cynhyrnodd Charlotte Hodgson, ein Swyddog Casgliadau, bapur ar symleiddio'r system adneuo ar ein rhan. Byddai llyfrau'n mynd i Lyfrgell y Glowyr, Abertawe a gellid cyfeirio unrhyw arteffactau i amgueddfa briodol ar ôl eu sganio. Adroddodd Caroline Fairclough ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt y wefan newydd ac y byddai modd ei chael yn barod erbyn mis Mai. Mae'n fwiad ei lansio mewn digwyddiad yn Aberystwyth ar ddydd Sadwrn 12^{fed} Mai. Bydd Jenny Sabine yn chwilio am leoliad addas a byddai aelodau yn cael gwahoddiad iddo.

Mae'r 10^{fed} Awst yn ddiwrnod arall i'r calendr, pan fydd Archif Menywod Cymru yn trefnu digwyddiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhelir eleni ym Mro Morgannwg (gweler tud. 2 uchod). Cytunwyd y byddem yn darparu cefnogaeth dechnegol ac yn ariannu cyfieithu ar y pryd fel y gall y rhai di-gymraeg gael budd o'r cyfarfod hefyd. Un o'n prosiectau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw ceisio dylanwadu ar brifysgolion Cymru, lle na chaiff hanes menywod ei ddysgu bellach, dim ond ym Mangor y ceir cwrs wedi'i addysgu yn awr. Mewn sawl man mae Astudiaethau Rhywedd wedi disodli hanes menywod. Byddem yn croesawu'n fawr unrhyw awgrym gan ein haelodau ar sut y gallwn newid hyn.

Siaradodd Catrin Stevens ar bwnc cyfieithu ac atgoffodd hi ni fod Archif Menywod Cymru yn fudiad dwyieithog a bod angen i ni ddefnyddio'r ddwy iaith yn ein busnes. Rydym yn gobeithio galw am gymorth aelodau eraill pan aiff y gwaith cyfieithu yn rhy feichus. Dylai Cymry-Cymraeg gyflwyno'u defnydd yn Gymraeg ac yn Saesneg os oes modd. Cytunwyd y byddem yn cefnogi Cynhadledd Flynyddol Women's History Network trwy ei mynychu yng Nghaerdydd ym mis Medi 2012, a hefyd Cynhadledd Ryngwladol Cymdeithas Gogledd America ar gyfer astudio Hanes a Diwylliant Cymru ym Mangor yng Ngorffennaf. Bydd cyflwyniad Pwerbwyrnt cryno yn cael ei gynhyrchu i ddisgrifio gwaith yr Archif.

Fel y gallwch ddychmygu, roedd yn gyfarfod hirfaith, dros ddwy awr a hanner, gan fod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu, felly dim ond y prif bynciau trafod a gynhwyswyd yn yr adroddiad byr hwn.

Rosemary Scadden (Ysgrifennydd Cofnodion)

Gwerth Archifau Busnes i Ymchwil – Dyma'r seiliau

Archifau Busnes – dyna ddiffas! Cofiai Dr Valerie Johnson o Archifdy Cenedlaethol Kew, yr ymateb hwn i'r ffaith ei bod yn gweithio gyda'r Archifau Cenedlaethol ar gasgliad o ffilmiau masnachol a thechnegol. Yna, aeth yn ei blaen i ymwrthod â'r gred hon ac i egluro pa mor gyfoethog, amrywiol a hyd yn oed diddorol, y gallai'r fath adnodd fod, ac eto na chaiff ei ddefnyddio'n helaeth.

Roedd ei sgwrs yn rhan o weithdy diwrnod ardderchog a drefnwyd ar y pwnc gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru (CACC) ac Archifau Richard Burton ym Mhrifysgol Abertawe. Cafwyd cyflwyniadau gan dri academydd yn dangos sut yr oedd casgliadau o'r fath wedi cynorthwyo'u hymchwil hwy. Adroddodd Dr Quentin Outram o Ysgol Fusnes Prifysgol Leeds hanes streic Glofa'r Emlyn, Penygroes, gan ddefnyddio casgliad yr Emlyn Cy & Brickworks yn Archifdy Caerfyrddin. Disgrifiodd Richard Haines o Brifysgol Abertawe gyfoeth anhygoel yr wybodaeth a gasglodd o'r dadansoddiad meintiol o bapurau cofrestru llongau. Fe'u cedwir yn Archifdy Gorllewin Morgannwg ac maen nhw'n cynnwys rhestr o holl berchnogion cyfrandaliadau ymhob llong. Roedd rhai menywod yn eu plith: roedd un ohonynt, Catherine Jenkins, yn berchen ar long gyfan. Defnyddiodd Dr Tehmina Goskar archifau'r cwmnïau mwyndoddi copr enwog o'r 18fed a'r 19eg ganrif yn Abertawe (ac a gedwir yn Archifau Richard Burton) i ail-greu cysylltiadau cyflenwi'r diwydiant fel rhan o'r prosiect ymchwil 'Bydoedd Lleol a Byd-eang Copr Cymreig' sy'n rhedeg yn awr ym Mhrifysgol Abertawe.



Photo :Richard Burton Archives, Swansea

Siaradodd panel o dri o safbwynt yr archifwyr. Dangosodd Valerie Johnson sut y gellir defnyddio archifau busnes ar gyfer astudio hanes economaidd, gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol yn ogystal ac ar gyfer sawl agwedd arbenigol amrywiol. Nododd eu bod yn ffynhonnell annisgwyl o gyfoethog ar hanes menywod. Pwysleisiodd Trevor Boyns, Ysgol Fusnes Caerdydd, fod angen deall y busnes dan sylw, a bod angen i ymchwilwyr ac archifwyr gydweithio i greu catalog cynhwysfawr o'r casgliadau.

Soniodd Stacey Capner, o Archifau Richard Burton, a oedd wedi trefnu'r digwyddiad ardderchog hwn, am y prosiect a ariennir trwy grant 'Pweru'r Byd: Edrych ar Ddiwydiant Cymru trwy Archifau,' sydd yn seiliedig ym Mhrifysgol Abertawe a'r Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth ac a drefnir gan CACC. Mae'r prosiect hwn wedi catalogio deg casgliad busnes o ogledd a de Cymru ac mae'r rhain ar gael yn awr yn eu harchifdai cartref ac ar y Gofrestr Genedlaethol o Archifau. Yn dilyn cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus, sicrhodd CACC gyllid gan CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau & Llyfrgelloedd Cymru) ar gyfer prosiect 'Elwa o Bweru'r Byd', sy'n tynnu sylw at archifau'r deg busnes hwn trwy gyfrwng paneli arddangosfa, taflenni a chyfraniadau ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Mae'n gweithio hefyd gydag academyddion ym Mhrifysgol Abertawe i archwilio'r defnydd o archifau busnes mewn dysgu ac ymchwil. Mae'n rhedeg cynllun peilot sy'n cyflogi dau fyfyrwr i gatalogio dau gasgliad, gan ddysgu iddynt sgiliau proffesiynol a dealltwriaeth o werth archifau wrth wneud hynny. Roedd y diwrnod addysgiadol, diddorol a phleserus hwn yn cynnwys sesiynau 'cwrdd â'r archifydd' a rhwydweithio hefyd.

<http://walespoweringtheworld.blogspot.com/>

Jenny Sabine.

Byd Coll y Swffragetaid

Gobeithio i rai o'n haelodau glywed y rhaglen hynod ddiddorol ar y pwnc hwn ar Radio 4, ac a ddarlledwyd ar 11eg Chwefror, 2012. Os na lwyddoch chi i'w chlywed bydd yn rhaid i chi gael hyd i rywun a'i lawr lwythodd hi i'w podcast, gan nad yw, yn anffodus, ar gael ar wefan *Archive on 4*.



Roedd y rhaglen yn defnyddio cyfweiliadau a wnaed gan yr hanesydd Brian Harrison yn yr 1970au a'r 80au cynnar. Recordiodd Brian Harrison brofiadau 108 o swffragetaid a swffragwyr; nid yw'r cyfweiliadau hyn, sydd yn y *Women's Library* bellach, wedi'u darlledu erioed o'r blaen, ac maen nhw'n eithriadol o ddiddorol. Cafodd y tapiau gwreiddiol bregus eu digideiddio yn 2007 a 2008, ac maen nhw ar gael yn y *Women's Library*. <http://calmarchive.londonmet.ac.uk/Dserve/dserve.exe?dsqIni=Dserve.ini&dsqApp=Archive&dsqDb=Catalog&dsqSearch=RefNo==8SUF&dsqCmd=Show.tcl>

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gellwch chi ysgrifennu'n ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at: newsletter@womensarchivewales.org os gwelwch yn dda

Dyddiad copi i'r rhifyn nesaf Dydd Gwener 18^{eg} Mai 2012

Os hoffech chi gopi print mawr o'r Cylchlythyr hwn yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad e-bost uchod o.g.y.dd. neu ffoniwch 01873 890540. Gobeithio y bydd mwy o aelodau yn derbyn eu Cylchlythyr trwy e-bost yn y dyfodol; newidiwyd ei gynllun i hyrwyddo hynny. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn fy e-bostio ar y cyfeiriad uchod fel y gallaf gadw cofnod diogel o'ch cyfeiriad e-bost.

Golygwych y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, a'i gyfieithu gan Catrin Stevens.